# Cofio Cenhedlaeth 1944




## Roedd 1944 yn flwyddyn allweddol yn hanes yr Ail Ryfel Byd, ac yn un yr oedd miliynau o bersonél y cynghreiriaid o ddwsinau o genhedloedd modern yn rhan ohoni ar draws y byd.

Yn y Dwyrain Pell, byddinoedd Prydain a'r India a wynebodd ochr waethaf Ymgyrch U-Go, ymosodiad byddin Japan i gipio cadarnleoedd Imphal a Kohima. Ar ôl misoedd o frwydro chwerw, byddai'r ddwy'n cael eu dal, ar gost anferth, gyda 16,000 o anafiadau cynghreiriol yn ystod yr amddiffyniad.

Ar y Blaen yn yr Eidal, brwydrodd byddin amlgenedl pedair brwydr greulon o fewn ychydig fisoedd o amgylch abaty hynafol Monte Cassino. Yn y pendraw, byddai 55,000 o'r 240,000 o ddynion a oedd yn rhan o'r brwydro yn cael eu lladd, eu hanafu neu ar goll erbyn i'r ffordd i Rufain gael ei hagor yn y pendraw.

Ar 6ed Mehefin, ar arfordir Ffrainc, byddai goresgyniad hirddisgwyledig 'D-Day' yn dod. Yn cael ei gynnal gan Armada o 7,000 o longau, byddai 130,000 o bersonél yn ymosod ar bum traeth Normandi, wedi'u cefnogi gan filoedd o awyrennau a milwyr awyr cynghreiriol.Mewn brwydr a fyddai'n para hyd at ddiwedd Awst, byddai bron i 2 filiwn o filwyr yn chwarae rôl yn 'Ymgyrch Overlord'. Eto, ni fyddai 72,000 ohonynt fyth yn dychwelyd.

**Fel eiriolwr Coffau, mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn cofio cenhedlaeth 1944. Sganiwch y cod QR i ddysgu mwy:**




Wrth i'r frwydr symud i fis Medi, gwnaed ymgais beiddgar i ddod â'r rhyfel i ben yn gyflym. Yn fwy cyfarwydd dan yr enw 'Ymgyrch Market Garden', daeth hyrddiad wedi'i arfogi trwy linellau'r gelyn i groesi'r Rhine ac i mewn i ogledd yr Almaen. Er gwaethaf y dewrder anhygoel a ddangoswyd gan fyddin yr awyr gan ddal ar groesfannau afon allweddol ar hyd y symudiad ymlaen, gan gynnwys dinas Arnhem yn yr Iseldiroedd, yn anffodus roedd yn un bont yn rhy bell.

Erbyn diwedd y flwyddyn hanesyddol honno, roedd buddugoliaeth yn dal ymhell i ffwrdd, ond roedd cynnydd gwirioneddol wedi'i wneud. Pan ddaeth y frwydr i ben yn Aber Scheldt ym mis Tachwedd, gorweddai porthladd Antwerp a'r ffyrdd allweddol tuag ati yn nwylo'r Cynghreiriaid. Gallai'r cyflenwadau a oedd eu hangen yn ddirfawr, a fyddai yn y pendraw yn arwain at fuddugoliaeth yn Ewrop, ddechrau llifo o'r diwedd.

ROYAL BRITISH LEGION

Registered charity number: 219279